

Protocol ar Gyfer Cyfnewid Gwybodaeth

rhwng

Cyngor Gofal Cymru
ac

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau
Cymdeithasol Cymru

www.aggcc.org.uk
www.cgymru.org.uk

Protocol ar gyfer cydweithio:

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chyngor Gofal Cymru (y Cyngor Gofal)

Cynnwys

PROTOCOL AR GYFER CYDWEITHIO:	2
1. HANES DIWYGIO A CHYMERADWYAETH	1
2. CYFLWYNIAD	3
3. AMCANION / DIBEN A CHWMPAS Y PROTOCOL HWN	3
4. SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU POB SEFYDLIAD	3
5. TREFNIADAU / ARFERION CYDWEITHIO	5
6. RHANNU GWYBODAETH	5
6.1 Pwrpas rhannu gwybodaeth	5
6.2 Y sail ar gyfer rhannu gwybodaeth	5
6.3 Cyfrifoldebau a'r sefydliadau perthnasol	7
6.4 Diogelu gwybodaeth	8
6.5 Gwybodaeth na fydd yn cael ei rhannu	8
6.6 Mynediad a hawliau'r unigolyn	8
7 LLYWODRAETHU GWYBODAETH	8
7.1 Ansawdd data	9
7.2 Trin, storio, trosglwyddo a gwaredu ar ddata	9
7.3 Trefniadau diogelwch sefydliadau	9
8. ADNODDAU	10
9. ADOLYGU'R PROTOCOL	10
10. LLOFNODION	10

1. Hanes diwygio a chymeradwyaeth

Paratowyd y ddogfen hon gan:

Fersiwn	Dyddiad y cytunwyd arno
2.0	I'w gadarnhau
1.1	Yn cael ei ddatblygu
1.0	1 Tachwedd 2011

Dyddiad	Sut y diwygiwyd y ddogfen	Diweddarwyd y ddogfen gan
Ebrill 2015	Adolygu'r ddogfen ymhellach yn dilyn dau gyfarfod is-grŵp ar 15/01/15 a 27/02/15	Jen Noble
05/11/14	Adolygu'r ddogfen yn dilyn dau gyfarfod is-grŵp (AGGCC a'r Cyngor Gofal)	Jen Noble
14/03/14	Cwblhau diweddariad sylweddol ar y cyd gan staff o AGGCC a'r Cyngor Gofal	Jen Noble
06/11/13	Dechrau ar y gwaith o ddiweddarau'r Protocol.	Sian Edwards
21/01/13	Diwygio a diweddarau tabl 6.3. Diwygio'r adran ar hanes adolygu.	Peter Kennedy
09/02/12	Dileu'r adran llofnod ychwanegol, Diwygio manylion ac amllder eitem o wybodaeth a rennir.	Peter Kennedy
11/01/12	Diwygiadau'n dilyn Gweithdy Protocol - i rywfaint o wybodaeth cyswllt yn 6.3, ac i 2.1, 9, 13 ac 14 o 6.4.	Sian Edwards
14/11/11	Diwygio manylion darparwr data'r swyddfa genedlaethol ar 6.3 a diweddarau manylion y dull rhannu manylion ar gyfer yr eitem gyntaf ar 6.4	Peter Kennedy
13/10/11	Diwygio'r categori newydd (rhif 12) yn y tabl yn 6.4 ac ychwanegu categori newydd yn Atodiad 5.	Sian Edwards
13/10/11	Ychwanegu categori newydd o wybodaeth a rennir i gynnwys awdurdodau dan Fesurau Arbennig	Chris MacDonald
5/10/11	Diweddarau i ddileu cyfarwyddiadau templed a disodli cyfeiriadau at "angen gwaith pellach..."	Chris MacDonald
12/09/2011	Diweddarau yn dilyn trafodaeth â Gerry Evans a Jonathan Corbett	Sian Edwards Catrin Awoyemi
05/09/2011	Mân newidiadau'n dilyn trafodaethau mewnol AGGCC a Chyngor Gofal Cymru	Sian Edwards Catrin Awoyemi
01/09/2011	Diweddarau yn dilyn ymholiadau mewn cyfarfod gwaith	Sian Edwards
23/08/2011	Diweddarau yn ystod cyfarfod gwaith. Presennol: Cyngor Gofal – Sian Edwards, Ruth Geuter, Becky Collier, AGGCC – Catrin Awoyemi, Chris MacDonald	Catrin Awoyemi
29/07/2011	Ystyried sylwadau'r Cyngor Gofal gyda Chris MacDonald a Jonathan Corbett	Catrin Awoyemi

05/07/11	Cyfraniad dechreuol gan y Cyngor Gofal gan gynnwys diwygiadau ac awgrymiadau	Sian Edwards
18/05/2011	Adran diogelwch gwybodaeth y Protocol yn unig yn cael ei ddiwygio fel cam dechreuol adolygu'r Protocol cyfan ar gyfer cydweithio gan AGGCC a Chyngor Gofal Cymru. Fersiwn derfynol o'r Protocol cyfan dyddiedig Mai 2010.	Catrin Awoyemi

2. Cyflwyniad

Mae'r Protocol hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng AGGCC a Chyngor Gofal Cymru, i baratoi ar gyfer cydweithio, rhannu gwybodaeth a defnyddio offer TGCh cyffredin rhwng y ddau gorff.

3. Amcanion / diben a chwmpas y Protocol hwn

- 3.1 Amcan y Protocol hwn yw nodi'r fframwaith y mae Cyngor Gofal Cymru ("y Cyngor Gofal") ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ("AGGCC") wedi cytuno arno ar gyfer cydweithredu, cydweithio a chyfnewid gwybodaeth yn ymwneud â chyfrifoldebau'r naill gorff a'r llall ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol a rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- 3.2 Nid yw'r Protocol hwn yn effeithio ar swyddogaethau statudol presennol nac yn diwygio unrhyw bolisiâu neu gytundebau eraill yn ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor Gofal ac AGGCC. Nid yw'n golygu unrhyw drosglwyddiad o gyfrifoldeb o un i'r llall, nac yn golygu rhannu unrhyw gyfrifoldebau statudol.
- 3.3 Nid oes dim yn y Protocol hwn sy'n cyfyngu ar arfer y naill gorff na'r llall i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol.
- 3.4 Nid yw'r Protocol hwn yn orfodol gan y gyfraith. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Gofal ac AGGCC yn cytuno i gadw at ei egwyddorion ac i ddangos parch dyledus at weithgareddau ei gilydd.
- 3.5 Fe all sefyllfaoedd godi pan fydd angen cyfathrebu rhwng AGGCC a'r Cyngor Gofal dan yr amgylchiadau canlynol:
 - o pan fydd AGGCC yn dymuno tynnu sylw'r Cyngor Gofal at bryderon penodol;
 - o pan fydd y Cyngor Gofal yn dymuno tynnu sylw AGGCC at bryderon penodol;
 - o trwy gyfnewid gwybodaeth a chydgyssylltu gweithgareddau'n barhaus;
 - o i gefnogi cyfleoedd pellach ar gyfer cydweithio .

4. Swyddogaethau a chyfrifoldebau pob sefydliad

4.1 AGGCC

- 4.1.1 Mae AGGCC yn adran o Lywodraeth Cymru sy'n gweithredu'n annibynnol. Mae'n darparu gwasanaeth rheoleiddio ac arolygu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, gan annog gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol trwy reoleiddio, arolygu, adolygu a darparu cyngor proffesiynol.
- 4.1.2 Fel rhan o swyddogaeth reoleiddiol AGGCC, mae'n cofrestru, arolygu a lle bo angen, yn cymryd camau gweithredu er mwyn gwella gofal plant a gofal cymdeithasol yng Nghymru, er mwyn sicrhau mai dim ond pobl a sefydliadau a fydd yn darparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel sy'n cael eu cofrestru.
- 4.1.3 Gall arolygiadau fod naill ai 'â phwyslais penodol' sy'n canolbwyntio ar brofiadau'r unigolion sy'n derbyn gwasanaethau, neu'n 'sylfaenol' sy'n edrych yn fwy manwl ar y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi. Mae arolygiadau'n ddirybudd ac mae adroddiad o ganfyddiadau'n cael ei gyhoeddi ar gyfer pob gwasanaeth ac ar gael i'r cyhoedd ar wefan AGGCC. Mae AGGCC hefyd yn darparu adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys gwybodaeth am faint, ffurf ac ansawdd gwasanaethau yng Nghymru.
- 4.1.4 Mae dull AGGCC o weithio'n cydnabod gwerth darparu cyngor i ddarparwyr cofrestredig i yrru gwelliant a phwysigrwydd cyfarfod â darparwyr pan nad yw'n hawdd

datrys problemau. Mae hefyd yn cydnabod er bod mwyafrif y darparwyr cofrestredig yn gallu cydymffurfio â rheoliadau, bod nifer fach sy'n methu'n fynych â gwneud hyn ac felly'n methu darparu ar gyfer yr unigolion hynny sy'n defnyddio'u gwasanaethau.

- 4.1.5 Pan fydd canlyniadau'n wael i bobl mae AGGCC yn cymryd camau gweithredu. Mae Deddf Safonau Gofal 2000 a Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn darparu dau ddatrysiad gwahanol i Weinidogion Cymru: achos sifil ac achos troseddol. Gall AGGCC ddefnyddio'r naill neu'r llall neu'r ddau ar yr un pryd.
- 4.1.6 Mae achos sifil yn ymwneud â gallu AGGCC i ganiatáu, cynnig i ddileu, neu orfodi amodau naill ai i gofrestrriad darparwyr a/neu gofrestrriad rheolwyr. Er enghraifft, gall AGGCC geisio dileu cofrestrriad gwasanaeth, lleihau nifer y bobl sy'n derbyn gofal neu atal derbyniadau pellach.
- 4.1.7 Mae unrhyw drosedd yn ymwneud â methu â chydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol mae'r gwasanaeth yn gweithio iddynt neu ofynion penodol y Ddeddf Safonau Gofal neu'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru). Ar y cyfan, dim ond unigolion cofrestredig gall AGGCC eu herlyn, er bod rhai eithriadau cyfyngedig. Er enghraifft, darparu neu reoli gwasanaethau heb fod wedi cofrestru i wneud hynny.

4.2 Y Cyngor Gofal

- 4.2.1 Cafodd y Cyngor Gofal ei sefydlu dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a daeth i fodolaeth ar 1 Hydref 2001.
- 4.2.2 Cafodd y Cyngor Gofal ei sefydlu i hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ac arfer ymysg gweithwyr gofal cymdeithasol a safonau uchel o hyfforddiant ar eu cyfer. Ei nod yw sicrhau "y dylai plant ac oedolion sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol allu dibynnu ar weithlu sydd wedi ei hyfforddi'n gywir, yn briodol o gymwys ac yn cael ei reoleiddio'n effeithiol".
- 4.2.3 Mae gan y Cyngor Gofal gyfrifoldeb statudol i gynnal cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol (Cofrestr). Mae Deddf Safonau Gofal yn diffinio pw y gellir eu disgrifio fel 'gweithiwr gofal cymdeithasol'¹; mae hyn wedi cael ei ymestyn gan Reoliadau i gynnwys myfyrwyr gwaith cymdeithasol².
- 4.2.4 Daeth cofrestru'n orfodol i weithwyr cymdeithasol o 1 Ebrill 2005 gyda chyflwyno amddiffyniad o deitl. Daeth cofrestru'n orfodol i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol yn 2004 ac agorwyd y Gofrestr i gynnwys rheolwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol ar sail wirfoddol yn 2005. Daeth cofrestru'n orfodol i reolwyr gofal preswyl i blant o fis Tachwedd 2007 ac i weithwyr gofal preswyl i blant o fis Mawrth 2008. Daeth yn orfodol i reolwyr cartrefi gofal i oedolion o fis Mehefin 2011, a daeth yn orfodol i reolwyr gofal cartref o fis Chwefror 2013. Ar hyn o bryd mae'n agored ar sail wirfoddol i weithwyr cartrefi gofal a gweithwyr gofal cartref, ond cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn y Papur Gwyn ar Ddyfodol Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth yng Nghymru y bydd y gofrestr wirfoddol yn cael ei chau pan ddaw'r ddeddfwriaeth newydd i rym. Pan fydd unigolyn yn cofrestru bydd rhif unigryw'n cael ei ddyrannu iddynt. Gan y gall unigolyn adael ac ail ymuno â'r Gofrestr wrth i'w cyflogaeth newid, nid yw'r rhif ar ei ben ei hun yn cadarnhau cofrestrriad cyfredol. Mae'r gofrestr bresennol ar gael ar wefan y Cyngor Gofal.

¹ Adran 55, Deddf Safonau Gofal 2000

² Offeryn Statudol Cymru 2004 Rhif 711 (W.78): Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr 'Gweithiwr Gofal Cymdeithasol') (Cymru) 2004

4.2.5 Fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Safonau Gofal mae'r Cyngor Gofal hefyd wedi cynhyrchu Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol a Chod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol yn nodi'r ymddygiad ac arfer a ddisgwylir gan weithwyr gofal cymdeithasol. Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn gyfrifol am sicrhau nad yw eu hymddygiad ac arfer yn disgyn islaw'r safonau a nodir yn eu Cod. Unwaith y bydd gweithwyr wedi cofrestru, gall y Cyngor Gofal gymryd camau gweithredu os ydynt yn methu â bodloni'r Cod, a bydd yn ystyried y safonau a nodir yn y Cod wrth ystyried materion o ddiffyg addasrwydd i ymarfer a phenderfyniadau ynghylch a ddylai gweithiwr cofrestredig aros ar y Gofrestr. Cafodd y Cod Ymarfer ei adolygu ac ymgynghorwyd ar fersiwn newydd ohono yn 2014. Bydd yn cael ei ddisodli gan y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol o 1 Gorffennaf 2015. Bydd dyfodol y Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol yn cael ei hyrwyddo gan y Cyngor Gofal ac AGGCC yn 2015/16.

5. Trefniadau / arferion gweithio ar y cyd

- 5.1 Bydd AGGCC a'r Cyngor Gofal yn rhannu gwybodaeth yn unol â'r trefniadau a ddisgrifir yn atodiad A y Protocol hwn.
- 5.2 Bydd AGGCC a'r Cyngor Gofal yn parhau i gynnal cyfarfodydd wedi eu trefnu ac ar sail ad hoc yn ôl yr angen, i drafod materion sydd o fewn a'r tu allan i gwmpas y Protocol hwn.
- 5.3 Bydd AGGCC a'r Cyngor Gofal yn cydweithio i ddatblygu gweithio ar y cyd, rhannu gwybodaeth a defnyddio offer TGCh cyffredin rhwng y ddau gorff.

6. Rhannu gwybodaeth

6.1 Pwrpas rhannu gwybodaeth

- 6.1.1 Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu i gefnogi cyfrifoldebau'r naill gorff a'r llall dros reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol a rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- 6.1.2 Mae gwybodaeth bellach ar ddiben rhannu gwybodaeth yn cael ei disgrifio ochr yn ochr â phob gofyniad am rannu gwybodaeth yn atodiad A.

6.2 Y sail ar gyfer rhannu gwybodaeth

- 6.2.1 Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Mae fframwaith ar gyfer gweithredu³ yn nodi'r disgwyliad y bydd gwybodaeth am ddarparwyr - fel darparwyr a chyflogwyr - yn cael ei chysylltu'n dryloyw â gwybodaeth am y gweithwyr proffesiynol cofrestredig maent yn eu cyflogi.
- 6.2.2 Wrth rannu gwybodaeth yn unol â'r Protocol hwn, bydd AGGCC a'r Cyngor Gofal yn cydymffurfio bob amser â rhwymedigaethau'r naill gorff a'r llall dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

³ Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith ar gyfer gweithredu a gyhoeddwyd yn 2011 <http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=2011&lang=cy>

- 6.2.3 Yn yr un modd, bydd AGGCC a'r Cyngor Gofal yn cydymffurfio bob amser â rhwymedigaethau'r naill gorff a'r llall dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.
- 6.2.4 Mae AGGCC a'r Cyngor Gofal yn cydnabod eu bod yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac, o dan delerau'r Ddeddf honno, y gall fod yn ddyletswydd arnynt i ddatgelu gwybodaeth a ddarperir dan delerau'r Protocol hwn. Maent yn cytuno i ymgynghori â'i gilydd os bydd cais yn cael ei dderbyn dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am wybodaeth y byddai ei datgelu'n debygol o effeithio ar fuddiannau'r naill gorff a'r llall.
- 6.2.5 Os bydd naill ai'r Cyngor Gofal neu AGGCC yn derbyn gwybodaeth bersonol dan delerau'r Protocol hwn a bydd yn cadw a defnyddio'r data hynny at ei ddibenion ei hun, bydd y sefydliad sy'n derbyn yn dod yn "rheolwr data" ar gyfer yr wybodaeth at ddibenion y Ddeddf Diogelu Data a bydd yn ymdrin â'r wybodaeth dan sylw yn unol â hynny.
- 6.2.6 Os darperir gwybodaeth i naill ai'r Cyngor Gofal neu AGGCC sy'n ymwneud ag unigolyn cofrestredig adnabyddadwy, fel y gall y sefydliad sy'n derbyn brosesu'r wybodaeth honno ar ran y sefydliad sy'n datgelu, bydd y sefydliad sy'n derbyn yn "brosesydd data" at ddibenion y Ddeddf Diogelu Data a bydd yn:
- o defnyddio'r data yn unol â chyfarwyddiadau'r parti sy'n datgelu yn unig;
 - o sicrhau bod yr holl fesurau sefydliadol priodol ar waith i ddiogelu'r data rhag defnydd heb ganiatâd neu anghyfreithlon neu golled, dinistrio neu ddifrodi damweiniol;
 - o sicrhau bod yr holl weithwyr cyflogedig a allai gael mynediad at y data yn ymwybodol o'u dyletswyddau dan y Ddeddf Diogelu Data.
- 6.2.7 Bydd AGGCC a'r Cyngor Gofal bob amser yn ystyried yr angen i hysbysu ei gilydd mewn sefyllfaoedd pan fydd papur briff yn cael ei baratoi am achos ar gyfer Gweinidog neu'r cyfryngau. Caiff y penderfyniad ei wneud gan y Prif Arolygydd Cynorthwyol perthnasol ar gyfer AGGCC a'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Safonau Proffesiynol ar gyfer y Cyngor Gofal.
- 6.2.8 Bydd AGGCC a'r Cyngor Gofal yn cydymffurfio â gofynion Cod Llywodraeth Cymru ar Gyfrinachedd 'Cyfrinachedd: Cod Ymarfer ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru'.
- 6.2.9 Wrth rannu gwybodaeth yn unol â'r Protocol hwn bydd AGGCC a'r Cyngor Gofal yn gweithredu bob amser yn unol â haenau perthnasol Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru. Bydd AGGCC yn rhannu gwybodaeth gyda'r Cyngor Gofal yn unol â'r Protocol hwn.

6.3 Cyfrifoldebau a'r sefydliadau perthnasol

Sefydliad	Rolau gyda chyfrifoldeb strategol dros rannu gwybodaeth	Rolau gyda chyfrifoldeb ymarferol dros rannu gwybodaeth
AGGCC	Perchennog Asedau Gwybodaeth Prif Arolygwyr Cynorthwyol	• Dirprwy Berchennog Asedau Gwybodaeth (arweinydd swyddfa genedlaethol) • Rheolwr Gwybodaeth (dirprwy arweinydd swyddfa genedlaethol) • Rheolwr Gwybodaeth • Rheolwyr Cofrestru a Gorfodi Rhanbarthol* (arweinydd rhanbarthol) • Rheolwyr Datblygu Busnes Rhanbarthol* (dirprwy rhanbarthol) • Rheolwyr Ardal • Arolygwyr *(Rhanbarthau AGGCC = gogledd Cymru, de ddwyrain Cymru, de orllewin Cymru)
Y Cyngor Gofal	Prif Weithredwr Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Safonau Proffesiynol	• Swyddog Polisi / Clerc y Pwyllgor • Rheolwr Gwrandawiadau Ymddygiad • Rheolwr Addasrwydd i Ymarfer • Swyddogion Addasrwydd i Ymarfer • Cofrestrydd • Swyddogion Cofrestru • Rheolwr Cyfathrebu

6.4 Diogelu gwybodaeth

- 6.4.1 Lle mae AGGCC yn gwneud atgyfeiriad diogelu neu yn cael ei gwneud yn ymwybodol o atgyfeiriad diogelu⁴ ynghylch addasrwydd neu ymddygiad unigolyn sydd wedi cofrestru ag AGGCC neu'r Cyngor Gofal, bydd AGGCC yn hysbysu'r Cyngor Gofal am yr atgyfeiriad hwn.
- 6.4.2 Gall y Cyngor Gofal ddewis gwneud cais i'r cynrychiolydd awdurdod lleol perthnasol am wybodaeth yn ymwneud â'r atgyfeiriad.
- 6.4.3 Dylid gwneud unrhyw geisiadau i AGGCC am wybodaeth bellach yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

6.5 Gwybodaeth na fydd yn cael ei rhannu

- 6.5.1 Ni fydd y Cyngor Gofal nac AGGCC yn datgelu cynnwys adroddiadau meddygol a dderbyniwyd am unigolyn ac a geisiwyd er mwyn cadarnhau addasrwydd ar gyfer cofrestru, ac eithrio gyda chaniatâd yr unigolyn.
- 6.5.2 Ni fydd y Cyngor Gofal nac AGGCC yn datgelu cynnwys tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i'r corff arall, ac eithrio gyda chaniatâd yr unigolyn y mae'r dystysgrif yn berthnasol iddo.

6.6 Mynediad a hawliau'r unigolion

- 6.6.1 Bydd gwybodaeth a fernir ei bod yn sensitif yn cael ei rhannu rhwng yr unigolion â chyfrifoldeb strategol dros rannu gwybodaeth trwy gyfrwng yr unigolion â chyfrifoldeb ymarferol dros rannu gwybodaeth fel y rhestrir yn y tabl yn adran 6.3.
- 6.6.2 Wrth ddarparu gwybodaeth am leoliadau bydd AGGCC yn darparu'r rhif cyfeirnod gweithredol unigryw ar gyfer y lleoliad (nid rhif tystysgrif y cofrestriad). Gall y Cyngor Gofal ddefnyddio'r rhif cyfeirnod hwn i groes gyfeirio ac adnabod lleoliadau yn unigryw ac i gysylltu hwn ag unigolion cofrestredig pan fyddant yn gweithio yn y lleoliad hwnnw er mwyn galluogi cyfnewid gwybodaeth rhwng AGGCC a'r Cyngor Gofal. Ni ddylid ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall.
- 6.6.3 Wrth ddarparu gwybodaeth am unigolion cofrestredig, bydd y Cyngor Gofal yn darparu'r rhif cyfeirnod unigryw ar gyfer yr unigolyn cofrestredig, a adwaenir fel y rhif cofrestriad.
- 6.6.4 Os bydd unigolyn wedi cofrestru â chorff rheoleiddiol proffesiynol arall ar wahân i'r Cyngor Gofal, e.e. y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth/Cyngor Meddygol Cyffredinol, bydd AGGCC yn ceisio cyngor gan y Cyngor Gofal ynghylch pa gorff y mae'n briodol cyfeirio ato.
- 6.6.5 Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu yn unol ag atodiad A.
- 6.6.6 Bydd AGGCC a'r Cyngor Gofal yn cadw'r manylion cyswllt yn atodiad B.

7 Llywodraethu gwybodaeth

⁴ Amddiffyn Plant, Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed

7.1 Ansawdd data

- 7.1.1 Mae'r wybodaeth a ddarperir gan AGGCC yn wybodaeth weinyddol a ddefnyddir i reoli'r broses reoleiddiol. Er y gwneir pob ymdrech i gadw'r system yn gyfredol fe all fod oedi rhwng yr amser pan fydd staff AGGCC yn derbyn gwybodaeth a'r amser pan gaiff ei llwytho ar y system yn dibynnu ar y broses dan sylw.
- 7.1.2 Mae'r wybodaeth a ddarperir gan y Cyngor Gofal o'r Gofrestr wedi cael ei darparu gan ymgeiswyr, unigolion cofrestredig, cyflogwyr a chefnogwyr eraill fel rhan o'r broses cofrestru. Fel arfer caiff data eu gosod ar y system electronig o fewn un diwrnod gwaith o'u derbyn. Mae unigolion cofrestredig yn gyfrifol am ddiweddarau eu cofnod cofrestru ac mae gwasanaethau ar-lein i'w galluogi i wneud hynny. Mae proses adnewyddu bob tair blynedd yn helpu i ddiweddarau'r data sy'n cael eu cadw. Fodd bynnag, yn y cyfnod cyfamserol, mae pa mor ddiweddar yw'r data'n dibynnu ar unigolion cofrestredig a chyflogwyr rhagweithiol.
- 7.1.3 Bydd AGGCC a'r Cyngor Gofal yn parhau i wella dulliau rhannu data i alluogi gwell cymharedd ac i wella cywirdeb gwybodaeth.

7.2 Trin, storio, trosglwyddo a gwaredu ar ddata

- 7.2.1 Bydd AGGCC a'r Cyngor Gofal yn defnyddio rhif cyfeirnod gweithredol unigryw AGGCC ar gyfer lleoliadau i sicrhau y gellir diweddarau systemau'r ddau sefydliad yn rhwydd. Deallir y gall newidiadau i'r rhif cyfeirnod hwn achosi problemau paru i'r Cyngor Gofal. Mae angen dull o adnabod lleoliadau'n dilyn newidiadau i rifau cyfeirnod.
- 7.2.2 Os bydd gwybodaeth yn cael ei darparu gan un sefydliad, bydd y sefydliad arall yn cydnabod ei derbyn o fewn tri diwrnod gwaith.
- 7.2.3 Bydd AGGCC a'r Cyngor Gofal yn ymdrechu i hysbysu ei gilydd am ba gamau gweithredu sydd wedi eu cymryd, os o gwbl, o fewn deg diwrnod gwaith. Os na ellir bodloni'r cyfnodau amser hyn bydd yr unigolyn perthnasol yn cael ei hysbysu.
- 7.2.4 Bydd polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chadw a gwaredu dogfennau'n berthnasol i gofnodion AGGCC.
- 7.2.5 Bydd gwybodaeth a ddelir gan y Cyngor Gofal yn ymwneud â chofrestru neu ymchwilio i unigolyn ac at ddibenion rheoli pwyllgorau yn cael ei chadw yn unol â Pholisi ac Amserlen y Cyngor Gofal ar Gadw Gweithlu.
- 7.2.6 Bydd gwybodaeth a rennir am unigolion yn cael ei chofnodi a bydd yn cynnwys yr wybodaeth a restrir yn atodiad A.

7.3 Trefniadau diogelwch sefydliadau

- 7.3.1 Bydd gwybodaeth sydd i gael ei rhannu'n cael ei rhannu gan ddefnyddio sianeli diogel cymeradwy. Yn ymarferol mae hyn yn golygu:
- o Cyngor Gofal i AGGCC o CJSM i GSI
 - o AGGCC i'r Cyngor Gofal o GSI i CJSM
- 7.3.2 Bydd y Cyngor Gofal ac AGGCC yn cadw gwybodaeth yn unol â pholisïau'r naill sefydliad a'r llall ynghylch rheoli a diogelwch gwybodaeth.

- 7.3.3 Mewn achos o dorri diogelwch, bydd Perchennog Asedau Gwybodaeth AGGCC a Chyfarwyddwr Safonau Proffesiynol a Rheoleiddio'r Cyngor Gofal (gweler atodiad B am fanylion cyswllt) yn cael eu hysbysu.

8. Adnoddau

- 8.1 Bydd adnoddau ar gael gan y ddau sefydliad i alluogi'r Protocol hwn i gael ei roi ar waith.
- 8.2 Bydd y Cyngor Gofal ac AGGCC yn trafod y Protocol hwn yn aml a'r dulliau o weithredu'r trefniadau ynddo.

9. Adolygu'r Protocol

- 9.1 Cyfrifoldeb yr is-grŵp rhannu gwybodaeth yw cadw'r ddogfen hon yn gyfredol. Bydd y Protocol hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn.
- 9.2 Bydd angen ystyried y Protocol hwn fel rhan o Raglen o Newid AGGCC. Nod y Rhaglen o Newid fydd sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn ffordd awtomatig, hygyrch a bydd angen ystyried y gofynion yn y Protocol hwn.
- 9.3 Bydd hefyd angen ystyried y Protocol hwn yng nghyd-destun disgwyliad cydweithio agosach rhwng y ddau gorff fel y disgrifir yn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith ar gyfer Gweithredu, ac yng ngoleuni newidiadau sy'n codi o'r Papur Gwyn ar Ddyfodol Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth yng Nghymru a deddfwriaeth ddilynol.
- 9.4 Bydd y sefydliadau'n cysylltu â'i gilydd os bydd unrhyw bryderon yn codi ynglŷn â'r Protocol hwn ac yn ceisio datrys unrhyw anghydfodau yn gyfeillgar ac ar lefel weithio. Os na ellir datrys anghydfod ar lefel weithio, dylai uwch reolwyr o'r ddau sefydliad geisio datrys y mater. Mae'r ddau Brif Weithredwr ar y cyd yn gyfrifol am sicrhau datrysiad sy'n dderbyniol gan y ddau sefydliad.

10. Llofnodion

Imelda Richardson	Rhian Huws Williams
Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	Prif Weithredwr, Cyngor Gofal Cymru
Llofnod.....	Llofnod.....
Dyddiad.....	Dyddiad.....